



Polisi E-Ddiogelwch

Ysgol Pant Pastynog

Pennaeth: Meirion Edwards

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi dulliau ac arferion gorau'r ysgol ar gyfer sicrhau diogelwch digidol disgyblion, staff a rhieni. Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn defnyddio technoleg yn gyfrifol ac yn ddiogel.

2. Amcanion y Polisi

- Diogelu disgyblion rhag risgiau ar-lein.
- Hyfforddi staff a disgyblion am e-ddiogelwch.
- Rhoi gwybod i rieni am arferion diogelwch ar-lein.
- Sefydlu rheolau clir ar gyfer defnyddio technoleg yn yr ysgol.

3. Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd

- Bydd pob disgybl yn defnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion addysgol yn unig.
- Bydd mynediad i wefannau sy'n anaddas i blant yn cael ei rwystro gan y Sir.
- Rhaid i ddisgyblion a staff beidio â rhannu gwybodaeth bersonol ar-lein.

4. Defnydd o Ddyfeisiau Personol

- Ni chaniateir ffonau symudol nac unrhyw ddyfais bersonol i ddisgyblion yn ystod yr ysgol, oni bai bod trefniant arbennig wedi'i wneud.
- Mae dyfeisiau personol staff i'w defnyddio'n briodol ac yn unol â pholisi'r ysgol.

5. Diogelwch Cyfryngau Cymdeithasol

- Nid yw disgyblion yn cael defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol.
- Dylai staff gadw ffiniau proffesiynol wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac osgoi rhyngweithio â disgyblion ar lwyfannau personol.
- Bydd yr ysgol yn hyfforddi disgyblion am risgiau defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

6. Seiberfwlio

- Mae seiberfwlio yn cael ei gymryd o ddifrif a bydd unrhyw achos yn cael ei ymchwilio'n drylwyr.
- Dylai disgyblion adrodd am unrhyw fwlio digidol i athro neu aelod o staff.
- Bydd yr ysgol yn addysgu disgyblion sut i ymateb i seiberfwlio ac ymddygiad amhriodol ar-lein.

7. Diogelu Data a Phreifatrwydd

- Bydd gwybodaeth bersonol disgyblion a staff yn cael ei diogelu yn unol â rheoliadau GDPR.
- Ni ddylai staff na disgyblion rannu manylion personol trwy e-bost nac ar-lein heb ganiatâd.

8. Hyfforddiant a Gwybodaeth

- Bydd yr ysgol yn darparu sesiynau hyfforddi ar e-ddiogelwch i staff a disgyblion.
- Anogir rhieni i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo diogelwch ar-lein.

9. Gorfodi a Chosbau

- Bydd unrhyw dorri rheolau e-ddiogelwch yn cael ei ymchwilio ac yn arwain at gamau addas yn ôl polisi disgyblaeth yr ysgol.
- Bydd unrhyw ddefnydd amhriodol o dechnoleg yn cael ei fonitro a'i adrodd.

10. Adolygu'r Polisi

- Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol i ddatblygiadau technolegol newydd.
- Mae e-ddiogelwch yn gyfrifoldeb ar y cyd i bawb yn yr ysgol. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn greu amgylchedd diogel a chefnogol i bob plentyn ddysgu ac archwilio'r byd digidol mewn modd diogel.

11. Gwefannau defnyddiol

Child Exploitation and Online Protection (CEOP) - <https://www.ceop.police.uk/Safety-Centre/>

Thinkuknow – https://www.ceopeducation.co.uk/4_7/ a
<https://www.ceopeducation.co.uk/parents/articles/band-runner/>

UK Safety Internet Centre - <https://saferinternet.org.uk>

WiseKids - <https://wisekids.org.uk/wk/>

Pennaeth: _____ Dyddiad: _____

Cadeirydd _____ Dyddiad: _____

Dyddiad Cymeradwyo gan Lywodraethwyr Ysgol Pant Pastynog: _____